Pellter Teithio i Eryri

Faint o amser mae hi'n gymryd i bobl deithio i Eryri?

Mae'r map isod yn dangos ffin Parc Cenedlaethol Eryri ynghyd â lleoliad rhai pentrefi a threfi.

Mae'r pentrefi a'r trefi yma yn boblogaidd iawn gydag ymwelwyr, ond faint o amser mae hi'n ei gymryd iddynt gyrraedd?

Dinas	Pa mor hir ?	Beddgelert	Betws y Coed	Harlech	Aberdyfi
Lerpwl	Milltir	95	78	102	108
	Oriau	2.20	1.50	2.30	2.30
Manceinion	Milltir	120	103	128	132
	Oriau	2.40	2.14	2.52	2.50
Birmingham	Milltir	127	110	126	115
	Oriau	2.57	2.31	3	2.36
Newcastle	Milltir	251	235	257	273
	Oriau	4.50	4.30	5	5.12
Llundain	Milltir	243	226	241	231
	Oriau	5	4.40	5	4.42

Defnyddiwch wefan www.eryri-npa.gov.uk ac atlas ffordd am fwy o wybodaeth cyn ateb y cwestiynau

1. Pa ddinas sydd agosaf i Feddgelert o ran milltiroedd?

2. Pa ddinas sydd bellaf o Feddgelert o ran milltiroedd, ond byddai yn gynt teithio oddi yno i Feddgelert na fyddai o Lundain?

3. Edrychwch ar fap o'r D.U. mewn atlas. Fedrwch chi egluro pam ei bod yn cymryd llai o amser i deithio mwy o bellter weithiau?

4. O ba ddinas byddai'n cymryd lleiaf o amser i deithio i Fetws y Coed?

5. Edrychwch ar eich atlas eto. Pam y byddai'n cymryd dim ond awr a chwarter i deithio o'r ddinas yma i Fetws y Coed tra byddai'n cymeryd dwy awr a hanner i deithio i Aberdyfi?

6. O ba ran o Loegr y credwch fod y mwyafrif o ymwelwyr yn dod i Eryri.....Fydd yr ardal yn amrywio yn dibynnu ar lle byddant yn aros?

7. Pa bentrefi/trefi yn Eryri yn eich barn chi fydd y canolfannau 'pot-mêl' (yn denu'r mwyafrif o ymwelwyr)?

8. Pa effaith all yr holl ymwelwyr yma ei gael ar yr ardal leol? Gallwch ymweld â mwy o'r wefan cyn ateb y cwestiwn yma